Mark Drakeford AC / AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPAC@cynulliad.cymru

Annwyl Nick

5 Medi 2018

Rwyf heddiw wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig am ganlyniad yr adolygiad o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru, a'r camau nesaf i'w cymryd.

Llwyddodd y broses adolygu i ddenu sylwadau gwerthfawr gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Rwy'n ddiolchgar i'm cydweithwyr sector cyhoeddus, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chynrychiolwyr o fyd busnes am roi eu hamser i gefnogi'r adolygiad hwn.

Drwy'r adolygiad, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried argymhellion dau adroddiad caffael a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru; ymrwymiadau a gododd o ymchwiliad caffael y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a sylwadau a wnaed gennych yn ystod eich datganiad am gaffael cyhoeddus ar 2 Mai.

Pan gyhoeddais yr adolygiad ym mis Medi 2017, dywedais yn glir bod angen edrych ar gaffael mewn ffordd wahanol er mwyn diogelu buddiannau hirdymor Cymru wrth i'r DU baratoi i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac yn wyneb effeithiau'r cyni parhaus.

Mae'r sylwadau a gasglwyd drwy'r adolygiad wedi pwysleisio'r angen am newid ac wedi dangos nad yw newid pwyslais y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru yn ddigon i sicrhau'r trawsnewid angenrheidiol. Mae'r datganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi newidiadau pwysig o ran strwythur a chyflawni.

Canfu'r adolygiad nad yw model y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol o ddarparu fframweithiau mawr cenedlaethol a manteisio i'r eithaf ar arbedion pris drwy gyfuno gofynion cyffredin ac ailadroddus bellach yn flaenoriaeth i nifer sylweddol o sefydliadau cwsmer. Mewn nifer fawr o fframweithiau cenedlaethol, bu'n amhosibl sicrhau cytundebau i fodloni

blaenoriaethau pob un o'r sefydliadau cwsmer. O ganlyniad, mae'r cwsmeriaid wedi gwneud trefniadau amgen.

Dywedodd rhanddeiliaid bod angen cymorth caffael ar y cyd â ffocws rhanbarthol a lleol er mwyn eu galluogi i gyflawni yn erbyn nodau llesiant cenedlaethol. Bydd hyn yn ategu nodau'r Cynllun Gweithredu Economaidd ac yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio gwariant caffael i gyflawni nodau y Comisiwn Gwaith Teg.

Byddwn yn gweithio gyda thîm y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, ei gwsmeriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill i droi'r gwasanaeth yn fodel busnes gwahanol. Nid wyf yn disgwyl i'r newid hwn arwain at golli unrhyw swyddi. Yn y cyfamser, dechreuwyd ar sawl cam i sicrhau arbedion a rhoi sylw i faterion cyllido yn ymwneud â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Dangosodd yr adolygiad yn glir bod rhanddeiliaid am weld uned datblygu polisi cenedlaethol gryfach, ynghyd â rhaglen sgiliau a gallu newydd. Bydd y dull gweithredu hwn yn rhoi'r cymorth, adnoddau a gallu angenrheidiol i gwsmeriaid er mwyn sicrhau gwell canlyniadau drwy gaffael yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd cynlluniau i ddatblygu'r uned hon a'i rhaglen waith yn cael eu datblygu gyda'r rhanddeiliaid.

Mae caffael yn ysgogiad strategol bwysig y byddwn yn ei ddefnyddio fel elfen ganolog o ddull gweithredu ehangach, strategol i gynyddu cyfoeth a llesiant economaidd a chymunedol ar draws pob rhan o Gymru. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ac Aelodau'r Cynulliad wrth i'r cynlluniau i weithredu'r rhaglen drawsnewid hon fynd yn eu blaen.

Yn y cyfamser, atodaf ddiweddariad i ddangos sut mae'r adolygiad wedi ceisio ymateb i faterion a drafodwyd ar 5 Mawrth pan fu Llywodraeth Cymru yn bresennol yn sesiwn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ac argymhellion y ddau adroddiad caffael a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddiwedd 2017.

Diolch am eich diddordeb mewn caffael, ac edrychaf ymlaen at gael gweithio gyda chi yn yr hydref.

Yn gywir,

Mark.

Mark Drakeford AC / AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Atodiad 1

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Ymchwiliad i Gaffael Cyhoeddus

1. Cyflwyniad

1.1 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor) ar 5 Mawrth.

1.2 Yn ogystal â thystiolaeth gyffredinol am gaffael, nodwyd cyfres o feysydd y gellid edrych arnynt drwy'r Adolygiad o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru.

1.3 Fe gafodd yr Adolygiad ei gydlynu gan dîm penodol o fewn Llywodraeth Cymru. Cefnogwyd y broses gan amrywiaeth eang o randdeiliaid o bob cwr o sector cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a busnesau, a fu'n barod i roi eu hamser. Mae'r drafodaeth eang hon wedi helpu i gadarnhau'r posibilrwydd o gyrraedd consensws ar flaenoriaethau'r gwasanaeth yn y dyfodol.

1.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan annatod o waith yr Adolygiad, ac wedi helpu i gyfrannu at rai o'r opsiynau cyflawni a modelau gwasanaeth ar gyfer y dyfodol a drafodwyd gyda'r rhanddeiliaid.

1.5 Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, gan ddangos sut mae trafodaethau gyda'r rhanddeiliaid yn gyffredinol a thrwy'r Adolygiad wedi helpu i symud ymlaen a datblygu sawl ffrwd waith caffael.

2. Gallu ac Adeiladu Gallu

2.1 Roedd adeiladu'r proffesiwn caffael ar draws pob rhan o sector cyhoeddus Cymru yn thema allweddol yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

2.2 Drwy'r Adolygiad, anogwyd rhanddeiliaid i nodi anghenion presennol ac ar gyfer y dyfodol er mwyn helpu i lunio rhaglen adeiladu gallu ar gyfer y dyfodol.

2.3 Mae'r drafodaeth hon wedi amlygu'r angen am raglen amrywiol i adeiladu gallu a sgiliau ar gyfer y dyfodol sy'n cynnwys fframwaith cymhwysedd diwygiedig; rhaglen broffesiynol ledled Cymru; cyrsiau hyfforddi byr cyfoes gan ganolbwyntio'n arbennig ar sgiliau masnachol newydd, datgarboneiddio a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a pharatoi adnoddau datblygu gallu ar-lein.

2.4 Ar ben hynny, byddwn yn edrych ar gyfleoedd i gryfhau perthynas ag ysgolion, colegau a phrifysgolion i hyrwyddo caffael fel gyrfa o ddewis a darparu llif o dalent ar gyfer y dyfodol er mwyn helpu i liniaru effaith cyflog gwahaniaethol ar draws sector cyhoeddus Cymru.

3. Cyfathrebu ac ymgysylltu

3.1 Pan oedd Llywodraeth Cymru yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, gwnaed ymrwymiad i wella'r cyfathrebu a'r ymgysylltu gyda'r Adolygiad.

3.2 Datblygwyd cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu i'w weithredu ar gyfer yr Adolygiad. Roedd hyn yn cynnwys cyfathrebu drwy gylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol ac wrth gwrs y grwpiau a'r byrddau ffurfiol a sefydlwyd i gefnogi'r Adolygiad.

3.3 Cafodd pob rhan sylweddol o sector cyhoeddus Cymru eu cynrychioli a'u cynnwys yn y broses Adolygu, yn ogystal â chynrychiolwyr busnesa a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

3.4 Trafodwyd gyda grwpiau defnyddwyr allweddol fel rheolwyr trafnidiaeth, rheolwyr hylendid bwyd a'r gymuned gaffael ehangach.

3.5 Mae'r cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu hefyd wedi helpu i ddosbarthu negeseuon ar draws timau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru.

4. Datblygu Polisi - Manteision Cymunedol a'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID)

4.1 Roedd trafodaethau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn canolbwyntio ar ddatblygu offeryn mesur Budd i'r Gymuned er mwyn galluogi cyrff cyhoeddus i weld a chofnodi gwerth ehangach y gellid ei sicrhau drwy gaffael.

4.2 Fel rhan o'r datblygiad parhaus, mae'r offeryn mesur bellach yn cynnwys cyfleuster mesur carbon, er mwyn caniatáu i lwyddiannau datgarboneiddio gael eu cofnodi yn erbyn contractau penodol, yn ogystal â manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd eraill.

4.3 Ailddatblygwyd y SQuID i gynnwys gofynion newydd Cronfa Ddata Caffael Unigol Ewrop. Er mwyn helpu i'w ddefnyddio mewn ffordd gyson, cyhoeddwyd canllawiau dewis cyflenwyr, a'u dosbarthu ar draws sector cyhoeddus Cymru.

5. Ymgysylltu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

5.1 Ar wahân i'r Adolygiad, nodwyd bod ymdrechion ar droed i ddeall anghenion cwsmeriaid yn well, a sicrhau bod cynigion y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cael eu gweld fel cytundeb o ddewis.

5.2 Drwy'r broses Adolygu, gwahoddwyd cwsmeriaid i edrych ar bob maes contract a nodi'r model a'r dull gweithredu gorau ar gyfer contractio yn y dyfodol ar draws pob un o gytundebau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Bydd yr wybodaeth hon o gymorth i lunio'r camau nesaf.

5.3 Ar ben hynny, ymgynghorwyd â chwsmeriaid y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i sefydlu ffyrdd newydd o gyfathrebu, gwella mynediad at gytundebau a datblygu astudiaethau achos yn nodi manteision defnyddio'r cytundebau hynny. Mae manteision defnyddio cytundebau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol bellach i'w gweld ar y wefan ac yn cael eu darparu drwy negeseuon symlach.

5.4 Trafodwyd y broses optio allan gyda sefydliadau cwsmeriaid fel rhan o bob fframwaith. Drwy well dealltwriaeth o ofynion cwsmeriaid, mae dull gweithredu mwy hyblyg, anffurfiol yn ei le ar gyfer optio allan. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol bellach wedi cefnogi dros 30 o fini gystadlaethau cadarn. O ganlyniad, roedd gwariant gwirioneddol ar fframweithiau'r Gwasanaeth yn 2017-18 yn £299m, o gymharu â'r rhagolygon cychwynnol o £248m.

5.5 Trafodwyd ffyrdd o gyllido'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn y dyfodol gyda chwsmeriaid drwy'r broses Adolygu. Mae angen rhagor o waith i sicrhau consensws ynghylch y model cyllido, a bydd hyn yn cynnwys canlyniad yr archwiliad manwl o'r ffordd y mae cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn fwy strategol. Yn y cyfamser, cymerwyd sawl cam i leihau'r bwlch rhwng costau ac incwm y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

5.6 Gan fod y cam hwn o'r Adolygiad wedi dod i ben, bydd astudiaethau achos ac adroddiadau pellach yn cael eu datblygu i godi ymwybyddiaeth o'r hyn y gall y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ei gynnig ar draws sefydliadau cwsmer a gwella'r cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig dyfu eu cyfran o'r gwariant.

5.7 Mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar fanteision ymwneud â Gwasanaethau Masnachol y Goron Llywodraeth y DU a sefydliadau prynu cyhoeddus eraill.

6. Gwiriadau Caffael

6.1 Drwy'r broses Adolygu, mae cwsmeriaid wedi dweud y bydd angen i raglen newydd adeiladu gallu ar lefel sefydliad a swyddogion. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, ac yn adlewyrchu cyfleoedd i sicrhau gwerth yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

6.2 Mae trafodaethau'n parhau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i edrych ar briodoldeb ac ymarferoldeb dull gweithredu a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr.

7. Aliniad Strategol

7.1 Yn ystod trafodaeth yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, cydnabuwyd bod caffael yn bolisi trawsbynciol yr oedd angen ei alinio'n strategol i gefnogi polisïau a blaenoriaethau eraill.

7.2 Fel rhan o'r Adolygiad, gofynnwyd i randdeiliaid werthuso cyfres o fodelau gwasanaeth ar gyfer y dyfodol i nodi pa opsiwn fyddai orau i ategu blaenoriaethau fel Brexit, y Cynllun Gweithredu Economaidd, cyfyngiadau ar y gyllideb a nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

7.3 Sylwyd bod gwahanol flaenoriaethau gan wahanol rannau o sector cyhoeddus Cymru, felly ni lwyddwyd i gael consensws ar gyfer y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn y dyfodol ar draws pob categori gwariant.

7.4 O ganlyniad, nodwyd cynigion lefel uchel fel opsiynau a ffefrir ar gyfer model cyflawni gwasanaeth y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru yn y dyfodol. Byddwn yn edrych yn fanylach ar hyn gydag arweinwyr sector cyhoeddus a'u huwch-reolwyr.

7.5 Defnyddiwyd Grŵp Cyflawni'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fel cyfrwng craidd ar gyfer cynnal gwaith yr Adolygiad. Bydd trefniadau llywodraethiant a monitro caffael yn y dyfodol yn deillio o archwiliad manwl i'n ffordd o ddefnyddio cyllid cyhoeddus er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a meithrin twf economaidd a chyfoeth ar draws Cymru.